# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7fed o Fawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng Mandy Davies-Williams** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Catrin Thomas, Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 913 (32913)** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun STEM Gogledd** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Cadarnhau y penderfyniad i Gyngor Gwynedd arwain y Cynllun Rhanbarthol ar ran y 4 Sir.
- Yn amodol ar gymeradwyaeth WEFO, fod yr aelod cabinet mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Economi yn derbyn y cynnig grant o hyd at £1,461,000.
- Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo hyd at £150,000 o'r Gronfa Cydariannu tuag at y Cynllun.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- Mae ymrwymo'r Cyngor i weithredu fel corff arweiniol ar ran y 4 awdurdod lleol yn benderfyniad i'r Cabinet. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cadarnhau cyflwyno cais am adnoddau, derbyn cynnig grant ac ymrwymo'r Cyngor drwy Gytundeb cyfreithiol i ofynion Gronfa Cymdeithasol Ewropeaidd (ESF) gyda Swyddfa Ariannu Ewropeaidd a'r awdurdodau lleol eraill.

### 3 CYFLWYNIAD

- Mae Cyngor Gwynedd yn arwain ar gynllun STEM Gogledd. Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud cais am arian o Gronfa Cymdeithasol Ewrop (ESF) ar y cyd gyda 3 Awdurdod Lleol Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer darparu Cynllun STEM Gogledd (Gweler Cynllun Busnes STEM Gogledd yn Atodiad 1).
- Mae STEM Gogledd yn brosiect fydd yn buddsoddi mewn pobl ifanc 11-19 oed er mwyn creu gweithlu brwdfrydig sy'n ymateb i anghenion sgiliau'r economi leol gyda'r pwyslais ar bynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).
- Amcanion y cynllun yw:
    - Cynyddu'r nifer o bobl ifanc 11-19 oed sy'n dewis astudio pynciau STEM.
    - Gwella cyrhaeddiad pobl ifanc 11-19 oed mewn pynciau STEM.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### a. Angen am y prosiect

- Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn adnabod prif risgiau, cyfleon, ac argymhellion ar gyfer creu gweithlu yn y rhanbarth sydd yn gallu diwallu gofynion yr economi a chyflogwyr lleol i sicrhau twf.
- Yn benodol ar gyfer y prosiect STEM Gogledd mae'r Cynllun Sgiliau wedi adnabod fod cadw pobl ifanc yn yr ardal yn her a bod cysylltu â sgilio pobl ifanc ar gyfer y cyfleon sydd yn y rhanbarth yn un ffordd o ymateb i hyn.
- Mae'r Cynllun Sgiliau hefyd wedi adnabod fod nifer o gyflogwyr a darpar gyflogwyr yn y rhanbarth yn methu a llenwi swyddi gan nad yw'r sgiliau priodol ac addas ar gael yn lleol. Yn benodol, nodai'r Cynllun Sgiliau fod ac angen cynyddu'r nifer sydd yn astudio pynciau STEM i'r dyfodol er mwyn cyrraedd anghenion cyflogwyr mewn sectorau allweddol gan gynnwys Ynni, Cynhyrchu ac Adeiladwaith.
- Yn ystod 2015, comisiynodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru awdit o ddarpariaeth STEM mewn addysg, fel rhan o'r awdit daeth i'r amlwg fod dros 1,500 o ddarpariaeth/gweithgareddau STEM yn rhedeg yn y rhanbarth. Roedd yr awdit yn adnabod fod nifer y ddarpariaeth, y diffyg cydlyniaeth, natur unigol *(one off)* ac 'ar hap' y ddarpariaeth, a diffyg gwybodaeth y darparwyr o gyfleoedd cyflogaeth STEM o fewn yn y rhanbarth yn ei gwneud hi'n anodd i ysgolion fanteisio ar y ddarpariaeth wrth gynllunio'i cwricwlwm /amserlenni dysgu, ac yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc ddefnyddio'r darparet i'w cefnogi i wneud dewisiadau astudio.
- O ganlyniad i'r uchod datblygwyd y prosiect "STEM Gogledd". Bydd STEM Gogledd yn cyflogi tîm Rhanbarthol i weinyddu'r cynllun; 2 Gydlynydd STEM i weithio'n agos gyda chyflogwyr lleol, darparwyr gweithgareddau STEM, ac ysgolion; 6 Mentor STEM i weithio gyda phobl ifanc yn yr ysgolion i ddatblygu pecynnau dysgu STEM unigryw.

### b. Canlyniadau STEM Gogledd

- Mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol yn nodi'r angen i gyflawni'r targedau perfformiad canlynol ar draws y Rhanbarth.

| Dangosydd | Targed |
|---|---|
| Cyfranogwyr 11-19 oed | 550 |
| Cyfranogwyr 11-19 oed yn cwblhau hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg - Merched | 197 |
| Cyfranogwyr 11-19 oed yn cwblhau hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg - Bechgyn | 161 |
| Cyfranogwyr 11-19 oed yn parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Technoleg ol-16 - Merched | 106 |
| Cyfranogwyr 11-19 oed yn parhau i astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg ac Technoleg ol-16 - Bechgyn | 86 |

**c. Cyllideb STEM Gogledd**

- Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am Gyllideb STEM Gogledd ar draws y Rhanbarth.
- Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno hawliadau chwarterol rhanbarthol i WEFO.
- Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am dderbyn cyfraniadau Arian Cyfatebol ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Daw'r arian cyfatebol gan y partneriaid (sef y 4 awdurdod lleol) a chyfraniadau gan gwmnïau'r sector breifat. Gall cyfraniad yr awdurdodau lleol leihau yn ystod oes y prosiect wrth i gyfraniadau y sector breifat gael eu cadarnhau.
- Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi cyflwyno cais i Gronfa Cydariannu'r Cyngor ar gyfer sicrhau cyfraniad cyd-arainnu Cyngor Gwynedd i'r cynllun o hyd at £150,000. Mae adnoddau digonol yn y Gronfa Gydariannu ar hyn o bryd i ganiatáu ymrwymo'r £150,000 ac mae ymrwymo'r swm hwn o hynny o'r Gronfa Cydariannu sydd ar ôl yn flaenoriaeth gan yr Aelod Cabinet a'r Adran.
- Mae'r gyllideb fel a ganlyn:

| Pennawd Cyllid | Cost |
|---|---|
| Staff – Rheolaeth | £343,983 |
| Staff – Gweithredol | £981,866 |
| Costau Symlach (15%) | £198,877 |
| Gweinyddu | £9,250 |
| Adnoddau Dynol (Penodi a Di-swyddo) | £43,000 |
| TG | £110,000 |
| Marchnata | £140,000 |
| Teithio | £60,000 |
| Digwyddiadau | £100,000 |
| Ffioedd Proffesiynol (Archwiliad a Gwerthusiad) | £100,000 |
| **CYFANSWM** | **£2,086,976** |
| Cyfraniad ESF | £1,460,883 |
| Arian Cyfatebol | £626,093 |

**d. Rheolaeth Cynllun STEM Gogledd**

- Arweinir y cynllun yn rhanbarthol gan Gyngor Gwynedd. Bydd Tim Rheoli Rhanbarthol wedi leoli yn Adran Economi a Chymuned, a bydd yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Swyddog Monitro a Swyddog Cyllid.
- Bydd y rheolwr yn adrodd ar gynnydd y prosiect yn rheolaidd i WEFO ynghyd a'r Bwrdd Prosiect.

**e. Risgiau ac Ystyriaethau eraill.**

- Mae Asesiad Risg wedi ei gwblhau ar gyfer gweithredu'r cynllun (Atodiad 2).
- Y Prif risg yw rheoli'r cynllun yn rhanbarthol, sydd yn gosod cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i sicrhau cyflawniad y prosiect ar draws y rhanbarth sy'n ddibynnol ar gydweithrediad y 3 Sir arall o ran darparu'r cynllun drwy ysgolion y rhanbarth. Mae gan Gyngor Gwynedd brofiad o arwain ar, a chydweithio gyda'r cynghorau eraill ar brosiectau rhanbarthol eraill. Mae Bwrdd Prosiect STEM Gogledd wedi bod yn cydweithio ers dros flwyddyn ar y cynllun ac yn tynnu ynghyd partneriaid

sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Awdurdodau Lleol, Colegau Addysg Bellach, Prifysgolion, GwE, Cyflogwyr Lleol, darparwyr gweithgareddau/prosiectau STEM presennol a chynrychiolaeth o'r ysgolion.

- Y risg amlycaf arall i'w ystyried yw'r ymrwymiad i gyflogi swyddogion. Caiff costau diswyddo ar gyfer cyfnod y cynllun ei ad-dalu gan y grant, ond byddai unrhyw gost diswyddo sydd ynghlwm a hyd gwasanaeth y tu allan i gyfnod y cynllun yn disgyn ar yr awdurdod.
- Mae'r risgiau eraill yn risgiau arferol i dderbyn arian grant allanol, megis cyflawni gofynion monitro, archwilio, rheolaeth ariannol, rheolaeth perfformiad.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- Disgwyl dyfarniad WEFO a'r cynnig grant ym mis Ebrill 2017.
- Recriwtio a sefydlu'r strwythur staffio ym mis Mai a Mehefin 2017.
- Cyfnod rhagbaratoi yn rhedeg o Ebrill – Medi 2017 gyda'r rhaglen yn weithredol ar y 1af o Fedi 2017 yn gweithio o fewn yr ysgolion, hyd at Fawrth 2020.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Sylwadau'r Prif Weithredwr

"Mae'r cynllun yn amlwg yn un pwysig sy'n targedu datblygu sgiliau mewn meysydd pwysig iawn i ddatblygiad yr economi. Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae arian ar gyfer y cyllid cyfatebol ar gael ac mae ei ymrwymo yn flaenoriaeth gan yr Aelod Cabinet a'r Adran."

### Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid

"Yn amodol ar lwyddiant y cais am £1.461m o grant Ewropeaidd tuag at gost lawn y cynllun o £2.09m, cadarnhaf fod darpariaeth eisoes mewn lle ar gyfer cyfraniad hyd at £150,000 gan Gyngor Gwynedd. Mae Cabinet 5 Tachwedd 2013 wedi clustnodi adnodd o gyllideb y Cynllun Strategol ar gyfer gwireddu'r nod. Mae £750,000 eisoes wedi'i ddyrannu o'r Gronfa Trawsffurfio i'r perwyl o greu cronfa arian gyfatebol cyffredinol. O hwn, mae £75,000 eisoes wedi'i ymrwymo, a chynlluniau posib eraill fyddai angen cyfraniad oddeutu £475,000 wedi'u hadnabod, gan gynnwys y £150,000 ar gyfer y cynllun yma.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r bwriad i Gyngor Gwynedd weithredu fel y corff arweiniol ar gyfer cais grant Ewropeaidd y bartneriaeth isranbarthol yma, bydd swyddogion o'r Adran Cyllid yn cydweithio'n ddarbodus gyda rheolwyr y prosiect wrth dderbyn cyllid, rheoli gweithrediad a chadw tystiolaeth a chofnodion ariannol priodol er mwyn diogelu buddion y Cyngor."

### Sylwadau'r Swyddog Monitro

"Wrth sefydlu ac arwain ar gynllun o'r math yma mae'n bwysig fod y trefniadau ar y cyd gan gynnwys darpariaeth adnoddau cyfatebol a chydymffurfiaeth ac amodau yn cael eu ffurfioli mewn modd sydd yn gwarchod yr awdurdod arweiniol."